BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL MAI 21, 2024

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Rhydymain**
**Nos Fawrth, Mai 21, 2024 am 7:30 o'r gloch.**

[www.cyngorllanfachreth.cymru](www.cyngorllanfachreth.cymru)

**Presennol** Cynghorwyr Meurig Ashton, Rhun Prys Jones, Karen Goswel. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd.** Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau:** Gerallt Griffith, Peredur Jenkins, Llion Williams, Emlyn Roberts, Robin Jones. Hefyd Cyng. Delyth Lloyd Griffiths.

**3. Dewis Swyddogion**

Swyddogion presennol:-

Cadeirydd: Meurig Ashton
Is Gadeirydd: Gerallt Griffith

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Neuadd Bentref Brithdir: Rhun Prys Jones
Neuadd Bentref Llanfachreth: Gerallt Griffith
Neuadd Bentref Rhydymain: Emlyn Roberts
Neuadd Rhydygorlan: Meurig Ashton
Un Llais Cymru (2): Gerallt Griffith, Meurig Ashton.

**4. Datgan diddordeb.**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**5. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth 19, 2024.**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**6. Materion yn codi o'r cofnodion Mawrth 19, 2024.**

Nid oedd materion yn codi.

**7. Gohebiaeth**

a. Llythyr (28/3/2024) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith yn cael ei wneud gan Tim Tacluso Ardal Ni yn Brithdir a Llanfachreth ar 8-12/4/2024.

b. Llythyr (23/4/2024) oddi wrth Cymdeithas yr Iaith trwy law Un Llais Cymru. Amgáu mae dogfen 'Addysg Gymraeg i Bawb: Cyrraedd y Nod'. Cafodd y ddogfen ei thrafod yn y Senedd ar sut i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn derbyn yr hawl i addysg cyfrwng Cymraeg, ynhyd â'r heriau ymarferol o gyflawni hynny.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (23/4/2023) oddi wrth Clerc Cyngor Tref Nefyn ynglŷn y bwriad Cyngor Gwynedd i wario £1 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf ar 67 o geir trydan. Mae'r Cyngor yn gofyn am ein cefnogaeth ar y mater drwy anfon llythyr i Dyfrig Siencyn i wrthwynebu'r bwriad. Amgáu mae llythyr anfonwyd i Dyfrig Siencyn.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Anfonodd Karen, Rhun a Peredur eu sylwadau i'r aelodau.

Llythyr ateb (7/5/2024) oddi wrth Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn egluro yr angen am gerbydau trydan.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (23/4/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys hyfforddiant sydd ar gael yn rhad ac am ddim.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (24/4/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgáu contract cyflogaeth newydd ar gyfer staff.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (29/4/2024) oddi wrth Swyddog Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd am sesiwn bydd ar 7/6/2024 yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau am 5.30 – 7.30yh i gael trafodaeth ar Cynlluniau Adfywio lleol 'Ardal Ni'. Amgáu mae dogfen 'Fframwaith Adfywio Ardal Ni.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

e. Llythyr (1/5/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd ar 8/5/2024 am 7.00yh yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau. Amgáu mae Agenda a Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhalwyd ar 4/1/2024.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (7/5/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn atgoffa am y cyfarfod.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Llythyr (3/5/2025) oddi wrth Elusen Ambiwlans Cymru yn rhoi gwybodaeth am gyhoeddiad cafodd ei wneud i wella gwasanaeth bydd Elusen Ambiwlans Cymru yn ei roi mewn sefyllfa lle fydd argyfwng ar hyd y wlad. Amgáu mae dogfen yn rhoi fwy o wybodaeth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ff. Llythyr (7/5/2024) oddi wrth Uned Iaith a Chraffu, Cyngor Gwynedd ynglŷn ag arolwg Iaith Cymraeg mae Prifysgol Bangor yn ei wneud.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

g. Llythyr (10/5/2024) oddi wrth Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod byddant yn cynnal sesiwn Tai ar Daith yn Tŷ Siamas, Dolgellau ar Mai 16 rhwng 3.00 a 6.30yh i roi gwybodaeth am y tai sydd ar gael .

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

h. Llythyr (13/5/2-24) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu Cynhadledd Arfer Arloesol bydd yn cymryd lle yn Llanelwydd ar 3/7/2024. Amgáu mae Agenda a ffurflen archebu.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

i. Llythyr (21/5/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynwys dogfen maent wedi cyhoeddi, gyda Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, ar ganllaw i gynghorau mewn perthynas â recriwtio a chadw clercod / swyddog ariannol cyfrifol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

j. Llythyr (21/5/2024) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Tim Tacluso Ardal Ni yn gwneud gwaith yn Brithdir a Llanfachreth ar 10-14/6/2024.

**8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Cais cynllunio NP5/54/459A. Cynllun Trydan Dŵr (34kw) yn cynnwys adeiladu pwerdy, argae a 3 pont trawst. Coedwig Cefn Ceunant Isaf, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais cynllunio (6/5/2023)..

b. Cais cynllunio NP5/54/18C. Newid defnydd o dir preswyl i ymgorffori defnydd busnes a gosod pabell fawr at ddibenion cynnal gweithdai cerameg. Gornant, 4 Tai Baldwin, Llanfachreth.

Penderfynwyd trafod y mater yn cyfarfod mis nesaf.

c. Llythyr (19/5/2024) anfonwyd gan Karen i'r aelodau. Roedd y llythyr yn cynnwys erthygl oedd yn y Cambrian News ynglŷn â chynlluniau bwriadwyd ei wneud i drawsnewid adeiladau allanol Caerynwch. Cafodd y cais ei wrthod gan y Parc ond mae'r perchennog o'r farn cafodd y cynlluniau eu derbyn gan Gyn-swyddog y Parc ac oherwydd hyn mae'r perchennog am hawlio iawndal yn erbyn y Parc. Cyn i waith cael ei wneud bydd angen gwneud ymchwil i slumod sydd yn yr adeiladau.

Derbyniwyd llythyr (21/5/2024) gan y Parc, trwy law Delyth, yn ymateb i lythyr Karen. Mae'r Parc yn dweud bod gwaith wedi cael ei wneud heb ganiatâd y Parc. Cafodd y cais ei wrthod gan y Parc ac nid oedd y perchenog yn llwyddianus gyda'i apêl yn erbyn penderfyniad y Parc. Mae achos cydymffurfiaeth yn cael ei baratoi. Bydd fwy o wybodaeth ymhellach ymlaen.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

## 9. Materion Ariannol

a. Llythyr (21/3/2024) oddi wrth Un Llais Cymru gyda dogfen bydd o gymorth i baratoi cyllideb, monitro ariannol ac archwilio.

b. Llythyr (8/4/2024) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Rhydymain yn diolch am ein rhodd o £800.

c. Llythyr (8/4/2024) oddi wrth Ambiwlans Awyr Cymru yn diolch am ein rhodd o £250.

ch. Costau'r Clerc am y cyfnod Ebrill 1, 2023 – Mawrth 31, 2024:
Papur - £70.92
Inc- £628.34
Ring binder - £25.43
Stampiau post – £76.90
Cyfanswm- £801.59. (Llynedd roedd y costau yn £558.78).

Penderfynwyd trafod y mater yn cyfarfod mis nesaf.

d. Llythyr (30/4/2024) oddi wrth Un Llais Cymru gyda dogfen Datblygu Ymarfer sy'n ymwneud â Lwfansau Aelodau 2024/2025. Amgáu hefyd mae ffurflen ar gyfer Aelodau nad ydynt yn dymuno derbyn y taliadau.

dd. Llythyr (17/4/2024) a dogfennau polisi yswiriant y Cyngor oddi wrth Zurich am y cyfnod 01/6/2024 i 31/5/2025. Y swm i'w adnewyddu yw £624.60. (Taliad flwyddyn ddiwethaf oedd £609.50).

Penderfynwyd talu'r swm.

e. Anfonwyd i'r aelodau copi o 'Cyfrifon Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth 2023-2024'.

f. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/3/2024: £1,167.23
Balans yn y banc ar 29/3/2024: £5,926.58.

ff. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/4/2024: £1,169.15
Balans yn y banc ar 29/4/2024: £5,064.52

**10. Archwilio**

a. Llythyr (18/3/2024) oddi wrth Archwilio Cymru yn cynnwys dogfennau i gwblhau Archwiliad Allanol Llawn o'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024.

b. Anfonwyd (19/3/2023) llythyr i Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt archwilio dogfennau y Cyngor am y cyfnod 2023-2024. Llythyr ateb yn dweud maent am wneud y gwaith.

c. Llythyr (4/4/2024) oddi wrth Archwilio Mewnol yn cynnwys rhestr o ddogfennau bydd angen sylw.

ch. Llythyr 923/4/2024) oddi wrth Archwilio Cymru yn egluro i'r cynghorau pam mae angen archwiliad llawn ar gyfer 2023-2024 (mae hyn oherwydd ymoliadau cafwyd gan gynghorau). Mae amryw o gynghorau ddim wedi cyflwyno cyfrifon 2020-21 i 2022-23.

d. Mae angen cymeradwyo y datganiadau cyfrifeg a'r Datgan Llywodraethu Blynyddol, sef y Ffurflen Flynyddol ddaeth i ben 31 Mawrth 2024. Mae angen i'r Cadeirydd arwyddo'r ffurflen.

Cymeradwyid y ddogfenn ac arwyddodd y Cadeirydd y Ffurflen Flynyddol.

**11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a. Y ffordd a'r bont wrth Capel Abergeirw.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae angen llenwi twll tua 1.5 x 1.5 sgwar sydd yn y ffordd.

b. Lamp Newydd Rhydymain. Llythyr (16/5/2024) oddi wrth Cyngor Gwynedd yn

awgrymu gosod lamp newydd yr un ochr ar lamp bresennol.  Pris y gwaith fydd £1,700.  Amgáu mae map yn dangos y lleoliad..

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd trafod y mater yn cyfarfod mis nesaf.

**12.  Materion yr Aelodau**

a.  Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae angen llenwi twll sydd yn y  ffordd wrth Capel Abergeirw.  Hefyd mae angen llenwi tyllau ar y ffordd Rhiw Felen, Abergeirw gan roi sylw i'r ochr y ffordd sydd angen ei chryfhau.

Llofnod:                                        Dyddiad: